CYNGOR SIR DDINBYCH
(PARCIAU GWLEDIG LOGGERHEADS A MOEL FAMAU A LLANGOLLEN)
GORCHYMYN (LLEOEDD PARCIO ODDI AR Y STRYD)
2024

Mae Cyngor Sir Ddinbych (a enwir o hyn ymlaen yn "y Cyngor") yn arfer ei bwerau dan Adrannau 32, 33, 35(1), 35(3) a 35A a 35B a 124 (1) a Rhan IV Atodlen 9 Deddf Rheoliadau Traffig y Ffordd 1984, fel y diwygiwyd ("Deddf 1984"). Y Gorchymyn Traffig Ffyrdd (Ardal Barcio a Ganiateir ac Ardal Barcio Arbennig) (Sir Ddinbych) 2004 a'r holl bwerau galluogi eraill, ac ar ôl ymgynghori gyda Phrif Swyddog yr Heddlu yn unol â Rhan III Atodlen 9 Deddf 1984, mae'n gwneud drwy hyn y Gorchymyn canlynol:

RHAN 1
CYFFREDINOL

Dechreuad a Dyfyniad

1. Bydd y Gorchymyn yn dod i rym ar diwrnod o 2024 a gellir cyfeirio ato fel Cyngor Sir Ddinbych, Gorchymyn (Parciau Gwledig Loggerheads a Moel Famau a Llangollen) (Lleoedd Parcio Oddi ar y Stryd) 2024

Dehongliad

2. Yn y Gorchymyn hwn, ac eithrio lle mae'r cyd-destun yn mynnu fel arall, mae gan yr ymadroddion canlynol yr ystyron a neilltuwyd iddynt:

   Ystyr "Deddf 2004" yw Deddf Rheoli Traffig 2004 (fel y diwygiwyd)

   Mae "dull arall cymeradwy o dalu" yn golygu taliadau electronig heb arian parod, parcio a ffonio, cerdyn debyd neu gredyd a hwylusir gan ddilysu ar y safle neu o bell trwy ddarllenydd cerdyn neu ffôn symudol, neges destun neu alwad ffôn, neu drwydded parcio rithwir.

Mae “unigolyn awdurdodedig” yn golygu unrhyw unigolyn sydd wedi’i awdurdodi yn ysgrifenedig gan y Cyngor; ar gyfer pwrpas unrhyw swyddogaeth dan y darpariaethau’r Gorchymyn hwn.

Mae “cerbyd awdurdodedig” yn golygu cerbyd a enwir yng Ngholofn 3 Atodlenni 1 a 3 y Gorchymyn hwn.

Mae “diwrnodau codi tâl” yn golygu’r diwrnodau sydd yn cael ei nodi ym mhob man parcio yn ôl eu trefn.

Mae “cyfnod codi tal” yn golygu ar bob diwrnod codi tal yn ystod y cyfnod y nodir ym mhob man parcio, ac yn Atodlen 1 a 2 y Gorchymyn hwn fel yr amrywir o dro i dro.

Mae’r “Cyngor” yn golygu Cyngor Sir Ddinbych neu’r awdurdod olynol.

Mae “tâl dyddiol” yn golygu’r tâl mae Cyfoeth Naturiol Cymru neu’r Cyngor yn ei osod ar gyfer parcio mewn man parcio ar unrhyw un diwrnod ac am gyfnod penodol o amser fel y nodir yn gyfradd taliadau a nodir yn Atodlen 2 y Gorchymyn hwn neu mewn hysbysiad amrywio, ac fel hysbysebir yn y man parcio.

Mae "bathodyn person anabl” yn golygu bathodyn a roddir gan yr Awdurdod Lleol yn unol â darpariaethau Rheoliadau Gorchmynion Traffig (Eithriadau ar gyfer Unigolion Anabl) (Cymru) 2000 fel y’i diwygiwyd neu fathodyn sydd ag effaith o dan y rheoliadau hynny fel ei fod yn Fathodyn Person Anabl o dan y Rheoliadau Unigolion Anabl (Bathodynnau ar gyfer Cerbydau Modur) (Cymru) 2000 fel y'i diwygiwyd.

Mae “cerbyd person anabl” yn golygu yw unrhyw gerbyd sy’n arddangos bathodyn unigolion anabl lle bo perchennog y bathodyn yn bresennol yn y car fel teithiwr neu fel gyrrwr pan fo'r cerbyd wedi'i barcio.

Mae “gyrrwr” yn golygu unigolyn sydd yn gyrru cerbyd ar amser y gadawodd yn y man parcio.

Mae “beic modur trydan” yn golygu beic modur sy'n cael ei bweru gan drydan yn unig ac sy'n cael ei wefru gan ffynhonnell allanol.

Mae “bae gwefru beiciau modur trydan” yn golygu man parcio sydd wedi’i farcio a’i lofnodi’n gyfan gwbl at ddefnydd beic modur trydan tra bod y beic modur hwnnw’n cael ei wefru drwy gyfrwng pwynt gwefru beiciau modur trydan.

ystyr “pwynt gwefru beiciau modur trydan” yw uned bwrpasol a ddyluniwyd yn benodol ar gyfer gwefru beiciau modur trydan.

Mae “cerbyd trydan” yn golygu
(i) cerbyd wedi’i bweru gan drydan yn unig. Mae’r cerbyd wedi’i bweru gan ffynhonnell pŵer allanol ac yn cynnwys brecio atgynhyrchiol, neu
(II) cerbyd sy’n cyfuno batri, motor gyrru trydanol ac injan hylosgi fewnol (ICE) a'r gallu i wefru'r batri o ffynhonnell pŵer allanol. Gellir gyrru’r cerbyd gyda'r ICE, gyda’r motor gyrru trydanol neu gyda’i gilydd.

Mae “bae gwefru beiciau modur trydan” yn golygu man parcio sydd wedi’i farcio a’i arwyddo’n gyfan gwbl at ddefnydd gerbyd trydan tra bod y cerbyd hwnnw’n cael ei wefru drwy gyfrwng pwynt gwefru beiciau modur trydan.

Mae “pwynt gwefru beiciau modur trydan” yn golygu uned bwrpasol a ddyluniwyd yn benodol ar gyfer gwefru cerbydau trydan.

“amser terfyn” yw’r amser a ddynodwyd ar y tocyn Talu ac Arddangos, neu’r amser a ddynodwyd wrth ddefnyddio dull talu cymeradwy arall, ac yn amser mae’n rhaid i’r cerbyd adael y man parcio.

Ystyr “cerbyd nwyddau ysgafn” yw cerbyd sydd wedi’i adeiladu neu ei addasu ar gyfer cario nwyddau neu faich o unrhyw ddisgrifiad, lle nad yw’r uchder yn uwch na 1.85 metr ac os nad yw’r pwysau heb lwyth tu hwnt i 2540 o gilogramau ac nad yw’n llusgo trelar.

Mae “beic modur” yn golygu cerbyd a yrrir yn fecanyddol gyda llai na phedair olwyn, a bydd y term beic modur yn cael i ddefnyddio i gyfeirio at dermau “beic modur unigol a beic modur gyda char ochr:

Mae “beic modur gyda char ochr” yn golygu cerbyd a yrrir yn fecanyddol sydd ddim yn feic modur unigol.

Mae “car modur” yn golygu cerbyd modur fel y diffinnir yn adran 136(2) Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 (ddim yn gerbyd nwyddau nag yn gerbyd gwasanaethau cyhoeddus) ac nad yw’n llusgo trelar.

“Perchennog” yw’r person sydd wedi ei gofrestru gyda’r Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau fel ceidwad y cerbyd ar y dyddiad yr oedd y cerbyd wedi ei barcio yn y lle parcio dan sylw.

Mae “parcio” ac "wedi parcio" yn cyfeirio at stopio cerbyd ac aros yn segur am beth amser boed y gyrrwr yn y cerbyd ai peidio ac ystyrir bod cerbyd wedi ei barcio am unrhyw gyfnod yn yr un lle parcio neu lain barcio (yn ôl y digwydd) os yw unrhyw ran ohono o dan y cerbyd neu lwyth y cerbyd (os oes llwyth), boed y cerbyd wedi symud yn ystod y cyfnod hwnnw ai peidio.

Mae “parcio a ffonio” yn golygu dull talu’r ffi parcio gan gynnwys cofrestru taliad drwy ffôn neu fodd electroneg ac ar y defnydd cyntaf, cofrestru rhif cofrestru perthnasol y cerbyd, lleoliad y man parcio, manylion cerdyn credyd neu ddebyd neu fanylion eraill o’r fath y gall Cyfoeth Naturiol Cymru neu’r Cyngor geisio amdanynt o dro i dro sydd yn cael ei dderbyn gan Gyfoeth Naturiol Cymru neu’r Cyngor fel dull talu dilys ar gyfer yr amser perthnasol o ddefnyddio’r man parcio;

Ystyr “llain barcio” yw man yn y lle parcio, sy’n cael ei ddarparu i adael cerbyd o ddosbarth a nodir ac a nodir gan farciau ar yr arwyneb y man parcio neu a nodir gan arwyddion unigol neu fel arall yn cael ei ddynodi gan arwyddion yn y man parcio.

Mae “trwydded parcio” yn golygu unrhyw fath o drwydded neu drwydded parcio rithwir o fath a dyluniad gan Gyfoeth Naturiol Cymru, Yr

Ymddiriedolaeth Genedlaethol neu'r Cyngor ar gyfer pwrpas awdurdodi parcio fel y nodir yn yr Atodlenni'r Gorchymyn hwn.

Mae "lle parcio" yn golygu ardal o dir a ddengys yng nghynlluniau yn Atodlen 4 fel y nodir yn Atodlenni 1, 2 a 3 a ddarperir gan y Cyngor yn unol ag Adran 32 neu 35 o Ddeddf 1984 ar gyfer pwrpas parcio cerbydau a pheidio cau (yn rhannol neu yn gyfan gwbl) gan hysbysiad wedi'i osod gan awdurdod y Cyngor.

Mae "tocyn talu ac arddangos" yn golygu tocyn sydd wedi'i roi o'r peiriant tocyn wedi'i leoli yn y lle parcio y mae'r cerbyd wedi parcio, neu wedi'i roi gan unigolyn mae'r Cyngor wedi'i enwebu ar daliad o ffi ac yn ddilys ar gyfer cyfnod parcio fel yr hysbysir yn y lle parcio hwn ac wedi'i nodi yn Atodlenni 1 a 2 y Gorchymyn hwn fel y diwygiwyd o dro i dro, a rhaid ei arddangos yn y cerbyd yn y safle perthnasol.

Mae "Tâl Cosb" yn golygu tâl a osodir gan y Cyngor o dan Adran 77 rhan 6 ac atodlen 9 y Ddeddf 2004, sydd i'w dalu i'r Cyngor yn dilyn cyhoeddi Rhybudd Tâl Cosb ac o fewn y cyfnod a nodir ar y Rhybudd Tâl Cosb, o ddyddiad cyhoeddi'r rhybudd hwn.

Mae "rhybudd tâl cosb" yn golygu rhybudd a gyhoeddir neu a roddir gan unigolyn awdurdodedig gan y Cyngor yn unol â darpariaethau rhan 6 Deddf 2004

Mae "cynlluniau" yn golygu'r cynlluniau sydd yn Atodlen 4 y Gorchymyn hwn ac sy'n nodi'r lleoedd parcio sydd yn cael eu heffeithio gan yr Orchymyn hwn.

Mae "lleoliad perthnasol" yn golygu

(a) o ran cerbyd yn arddangos bathodyn dilys unigolyn anabl -
    (i) yn achos cerbyd gyda dangosfwrdd neu banel deialau, yw bod y bathodyn yn cael ei arddangos fel bod Rhan 1 (tu blaen y bathodyn), yn ddarllenadwy o'r tu allan i'r cerbyd; neu
    (ii) yn achos cerbyd sydd heb ddangosfwrdd neu banel deialau, yw bod y bathodyn yn cael ei arddangos mewn lleoliad amlwg yn

gerbyd fel bod Rhan 1 o'r bathodyn yn ddarllenadwy o'r tu allan i'r cerbyd.

(b) o ran cerbyd yn arddangos tocyn talu ac arddangos neu drwydded parcio -

(i) bod y tocyn neu drwydded yn cael ei arddangos y tu mewn arwyneb ffenestr flaen neu mewn lleoliad gweladwy fel ei fod yn wynebu ymlaen, a gellir ei weld yn amlwg a'i ddarllen o'r tu blaen neu ochr y cerbyd neu

(ii) mewn cerbyd sydd heb ffenestr flaen dryloyw, bod y tocyn neu drwydded yn cael ei arddangos ar flaen y cerbyd yn wynebu ymlaen ac yn weladwy amlwg; neu

Mae "beic modur unigol" yn golygu cerbyd a yrrir yn fecanyddol gyda llai na 3 olwyn.

Mae "peiriant tocyn" yn golygu offer o fath a dyluniad a gymeradwyir gan y Gweinidog priodol ar gyfer pwrpas Deddf 1984, wedi'i ddylunio'n briodol i nodi amser gan gloc ac i roi tocynnau parcio sydd yn dangos bod taliad wedi cael ei wneud o swm neu am gyfnod a gofnodir yno, ac sydd yn dynodi'r dyddiad, naill ai amser y taliad, neu amser terfyn am gyfnod parcio y gwnaethpwyd y taliad.

Mae "cerbyd" yn cynnwys unrhyw gar modur, beic modur, car modur trydan neu feic modur trydan, neu fodur a yrrir yn fecanyddol.

Mae "trwydded barcio rithiol" yn golygu cofnod electronig o docyn parcio, trwydded barcio neu oddefeb a gyhoeddwyd ac a gadarnhawyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru neu'r Cyngor i eithrio cerbyd rhag cyfyngiad neu i wneud taliad heblaw am y safle a gwmpesir yn narpariaethau'r gorchymyn hwn, o dan y telerau perthnasol ar adeg cyhoeddi. Gellir cael trwydded barcio rithiol trwy unrhyw un o'r dulliau a ddarperir o bryd i'w gilydd gan Gyfoeth Naturiol Cymru neu'r Cyngor ac i fod yn ddilys rhaid ei chofrestru ar gyfrif mewn cronfa ddata electronig a gymeradwyir gan Gyfoeth Naturiol Cymru neu'r Cyngor gydag arwydd bod y drwydded wedi'i rhoi a'i dilysu yn unol â gweithdrefnau Cyfoeth Naturiol Cymru neu'r Cyngor

3. Ac eithrio lle mae'r cyd-destun yn gorchymyn yn wahanol, mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at Erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr Erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn. Unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn i Atodlen yn gyfeiriad i Atodlen yn y Gorchymyn hwn.

4. Dylai unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at ddeddfiad gael ei ddehongli fel cyfeiriad at y ddeddf fel y'i diwygiwyd, cymhwyswyd, crynhowyd, ail-ddeddfwyd neu yn rhinwedd unrhyw ddeddfiad dilynol.

5. Oni bai fod y cyd-destun yn gorchymyn fel arall, bydd geiriau sy'n dynodi'r unigol yn cynnwys y lluosog ac fel arall a bydd geiriau sy'n dynodi'r personau yn cynnwys y naill ryw neu'r llall, cyrff corfforaethol, cymdeithasau heb eu hymgorffori a phartneriaethau.

6. Bydd Deddf Dehongli 1978 yn berthnasol ar gyfer dehongli'r Gorchymyn hwn gan ei fod yn berthnasol ar gyfer dehongli Deddf Seneddol.

RHAN 2
DYNODIAD A DEFNYDDIO MANNAU PARCIO

Dynodiad

7. Gellir defnyddio pob ardal o dir a nodir fel y dengys yn y cynlluniau yn Atodlen 4 y Gorchymyn hwn a restrir yn Atodlenni 1, 2 a 3 y Gorchymyn hwn, yn amodol ar ddarpariaethau'r Gorchymyn hwn, fel lle parcio cerbydau o ddosbarthiadau o fath, mewn lleoliadau, ar ddiwrnodau o'r fath, yn ystod oriau o'r fath, am gyfnod o'r fath ac am daliad am ffi o'r ffas fel yr hysbysir ym mhob lle parcio, ac wedi'u nodi yn Atodlenni 1, 2 a 3 y Gorchymyn hwn (fel y diwygir o dro i dro).

Dosbarth a lleoliad cerbyd

8. Lle mae hysbysiad yn y lle parcio, ac yn nhermau'r Gorchymyn hwn yn lle parcio, neu unrhyw lain o fewn y lle parcio ar gael ar gyfer cerbyd neu ddosbarth penodol o gerbydau i'w parcio mewn lleoliad penodol, ni chaiff

unrhyw berson achosi na chaniatáu cerbyd i gael ei barcio yn y lle parcio hwnnw nac mewn unrhyw lain barcio yn y lle parcio,

(i) oni bai ei fod o'r dosbarth a nodwyd.

(ii) sydd wedi ei barcio y tu hwnt i farciau'r llain barcio

(iii) sydd mewn safle ac eithrio i'r hyn a ddynodir; neu

(iv) at ddiben gwahanol i'r hyn a ddarperir ar ei gyfer yn y Gorchymyn hwn.

Math o gerbyd

9. Ni chaiff unrhyw berson achosi neu ganiatáu i gerbyd gael ei barcio mewn llain barcio neu lle parcio oni bai ei fod yn gerbyd modur, beic modur, cerbyd sy'n arddangos bathodyn dilys unigolyn anabl mewn safle perthnasol, neu ddosbarth a ragnodir yn benodol yn yr Atodlenni'r Gorchymyn hwn neu wedi'i hysbysebu fel lle parcio.

Safle'r cerbyd

10. Os yw lleiniau parcio wedi'u marcio yn y lle parcio, bydd gyrrwr y cerbyd yn sicrhau nad yw wedi parcio tu hwnt i farciau'r llain parcio a ni fydd yn caniatáu i aros yn y lle parcio tan fydd yn y safle.

11. Os nad yw lleiniau parcio wedi eu marcio yn y lle parcio bydd gyrrwr cerbyd yn sicrhau ei fod wedi ei barcio mewn modd nad yw'n rhwystro cerbydau eraill rhag defnyddio'r lle parcio, llif traffig rhag cylchredeg o fewn y lle parcio, a mynedfeydd ac allanfeydd y lle parcio. Mewn achosion o'r fath mae'n rhaid i'r gyrrwr gadw ar unrhyw gyfarwyddiadau gan swyddog awdurdodedig.

Lleiniau parcio i bersonau anabl

12. Ni chaiff unrhyw berson achosi na chaniatáu i gerbyd gael ei barcio mewn llain barcio gyda marc arwyneb neu arwydd ar gyfer personau anabl oni bai fod cerbyd yn arddangos bathodyn person anabl dilys yn y safle perthnasol ac yn syth cyn neu yn syth ar ôl y weithred o barcio fod y cerbyd wedi cael neu ar fin cael ei ddefnyddio gan y person(au) y cyhoeddwyd y bathodyn person anabl mewn perthynas â fo/nhw.

Trwydded Barcio

13. Ni chaiff unrhyw berson achosi na chaniatáu i gerbyd barcio mewn lle parcio sydd wedi'i ddarparu i ddeiliaid trwydded oni bai bod y cerbyd yn arddangos trwydded ddilys ar yr amser a bod y lle parcio neu gyda thrwydded parcio rithiol dilys.

Lleiniau gwefru beiciau modur trydan

14. Ni chaiff unrhyw berson achosi na chaniatáu i feic modur barcio mewn man sydd wedi'i farcio fel llain parcio beic modur trydan oni bai bod y beic modur yn un trydan sydd wedi'i gysylltu â phwynt gwefru beiciau modur trydan drwy gysylltiad ar gyfer pwrpas ailwefru batri beic modur trydan.

Lleiniau Gwefru Cerbydau Trydan

15. Ni chaiff unrhyw berson achosi na chaniatáu i gerbyd barcio mewn man sydd wedi'i farcio fel llain parcio cerbyd trydan oni bai bod y cerbyd yn un trydan sydd wedi'i gysylltu â phwynt gwefru cerbyd trydan drwy gysylltiad ar gyfer pwrpas ailwefru batri cerbyd trydan.

Lleiniau parcio beiciau modur

16. Ni chaiff unrhyw berson na chaniatáu i gerbyd barcio mewn llain barcio a nodwyd ar gyfer beiciau modur oni bai bod y cerbyd yn feic modur.

Oriau gweithredu a chyfnod hiraf yr arhosiad

17. Yn Atodlenni'r Gorchymyn ac fel yr hysbysir ar y safle'r lle parcio neu mewn llain barcio o fewn y lle parcio, yn cael ei ddisgrifio yn weithredol ar ddiwrnodau penodol, yn ystod oriau penodol am gyfnod hiraf o arhosiad, ni chaiff unrhyw berson achosi na chaniatáu i gerbyd barcio yn y lle parcio hwnnw nac mewn unrhyw lain parcio o fewn y lle parcio ar unrhyw ddiwrnod, yn ystod oriau o'r fath nac am unrhyw gyfnod naill o'r fath neu hirach na'r rheiny a nodwyd.

Cyfnod Dim dychwelyd

18. Yn yr Atodlenni hyn i'r Gorchymyn a thrwy hysbysiad o le parcio, mae lle parcio yn cael ei ddisgrifio fel cyfnod y gall gerbyd beidio dychwelyd i'r lle

parcio, ni chaiff unrhyw berson achosi na chaniatáu i gerbyd barcio eto yn y lle parcio hwnnw ar unrhyw ddiwrnod, yn ystod oriau o'r fath o fewn yr amser y mae'r cerbyd wedi'i eithrio rhag aros yn y lle parcio.

Pŵer i Gau neu Atal y Lle Parcio

19. Ni fydd unrhyw beth yn y Gorchymyn hwn yn atal y Cyngor drwy hysbysiad, arwydd neu rwystr a arddangosir neu a godir yn y lle parcio:
    (i) rhag cau'r lle parcio neu unrhyw ran ohono am unrhyw gyfnod; a/neu
    (ii) rhag neilltuo lle parcio neu unrhyw ran neu rannau ohono ar bob diwrnod neu ar ddyddiau penodol neu yn ystod rhannau penodol o ddyddiau at ddefnydd gan gerbydau neu sefydliadau penodol.

20. Bydd unrhyw berson sy'n cau neu atal y defnydd o'r lle parcio neu unrhyw ran ohono bydd y Cyngor yn gosod neu'n achosi i gael ei osod yn neu'n gyfagos i'r lle parcio neu'r rhan honno ohono, hysbysiad neu arwydd traffig yn nodi bod y lle parcio neu ran honno ohono ar gau neu fod y defnydd wedi ei atal ac na chaniateir i gerbydau barcio.

21. Ni chaiff unrhyw berson achosi na chaniatáu i gerbyd gael ei barcio yn y lle parcio nac unrhyw ran ohono yn ystod y fath gyfnodau â phan mae'r lle parcio neu'r rhan honno ohono ar gau neu fod y defnydd wedi ei atal neu yn ystod y fath gyfnod lle mae hysbysiad neu arwydd draffig yn neu yn gyfagos iddo sy'n nodi ei fod wedi ei gau neu ei atal gan neu ar ran y Cyngor.

Gwerthu Nwyddau

22. Ni chaiff unrhyw un yn y lle parcio heb ganiatâd ysgrifenedig a ddatganwyd gan y Cyngor, ddefnyddio cerbyd mewn cysylltiad â gwerthu unrhyw eitem, gan gynnwys y cerbyd ei hun, i unrhyw berson yn neu'n agos at y lle parcio neu mewn cysylltiad â gwerthu neu gynnig sgiliau neu wasanaethau i'w llogi yn unrhyw rinwedd arall.

Parcio gyda'r injan yn troi

23. Ni chaiff unrhyw berson mewn lle parcio barhau gyda'r injan yn troi pan mae'r cerbyd yn y man parcio ac ni fydd yn tanio'r injan oni bai ei fod am newid safle'r cerbyd neu adael y lle parcio.

Parcio sy'n achosi rhwystr

24. Ni chaiff unrhyw berson yn y lle parcio, barcio'r cerbyd yn y fath fodd neu'r fath le sy'n achosi rhwystr i unrhyw ddefnyddwyr eraill y lle parcio.

RHAN 3

FFIOEDD PARCIO

Talu

25. Ni chaiff unrhyw berson achosi na chaniatáu i unrhyw gerbyd barcio mewn lle parcio heb drefnu talu am y ffi ddyddiol (os oes) yn unol â'r gyfradd ffioedd fel y nodir yn Atodlen 2 neu hysbysiad amrywio ac fel yr hysbysir yn y lle parcio. Mae Atodlen 2 y Gorchymyn hwn yn disgrifio'r ffioedd sy'n berthnasol i wneud y gorchymyn hwn.

Dulliau talu

26. Mae'r ffioedd dyddiol a gyfeirir yn yr Erthygl flaenorol yn daladwy mewn modd a nodir yn yr Erthygl ganlynol ac fel yr hysbysebir yn y lle parcio hwnnw.

Lleoedd Parcio Talu ac Arddangos

27. Bydd y person sydd yn gyfrifol am gerbyd, ar unwaith ar ôl parcio mewn lle parcio neu lain parcio, yn

(i) trefnu prynu tocyn talu ac arddangos o'r peiriant tocynnau wedi'i leoli yn y lle parcio ar lefel y ffi ac ar gyfer y cyfnod sy'n ofynnol yn unol â chyfradd ffioedd a nodir yn Atodlen 2 neu hysbysiad amrywio, ac fel yr hysbysebir yn y lle parcio, neu

(ii) gwneud trefniadau i dalu'r ffi ddyddiol drwy ddull talu cymeradwy amgen ar lefel y ffi ddyddiol ac am y cyfnod gofynnol yn unol â chyfradd ffioedd a nodwyd yn Atodlen 2 neu hysbysiad amrywio ac fel yr hysbysebir yn y lle parcio hwnnw.

Arddangos tocyn

28. Ar wahân i dalu drwy ddull talu cymeradwy arall, ar ôl parcio'r cerbyd o fewn lle parcio talu ac arddangos, bydd y person sy'n gyfrifol am y cerbyd sicrhau:

(i) bod tocyn talu ac arddangos dilys wedi'i brynu i gyflenwi'r cyfnod llawn y mae'r cerbyd yn parcio yn y lle parcio, a

(ii) bod y tocyn talu ac arddangos dilys yn cael ei arddangos yn y safle perthnasol ar y cerbyd o ran pryd gafodd ei roi drwy gydol yr amser mae'r cerbyd wedi'i barcio.

Dilysrwydd tocynnau talu ac arddangos

29. Ni ellir trosglwyddo tocyn talu ac arddangos o un cerbyd i un arall, a phan fydd yn trosglwyddo ni fydd y tocyn talu ac arddangos bellach yn ddilys.

30. Mae tocyn talu ac arddangos ond yn ddilys yn y lle parcio lle cafodd ei roi. Diffinnir hyn drwy god gyfeirnod y peiriant tocynnau a leolir yn y lle parcio hwnnw, wedi'i argraffu ar y tocyn talu ac arddangos. Ym mhob achos, bydd tocynnau talu ac arddangos ond yn ddilys ar gyfer cyfnod y cafodd y taliad ei wneud.

Terfyn y cyfnod parcio

31. Bydd terfyn cyfnod mae'r ffi ddyddiol wedi'i dalu yn:

(i) adeg cafodd y tocyn talu ac arddangos ei brynu, lle'r oedd yr amser ar gloc y peiriant docynnau yn hwyrach na'r amser terfyn a ddangosir ar y tocyn talu ac arddangos a arddangosir, neu

(ii) lle mae dull talu cymeradwy amgen wedi'i ddefnyddio, pan roedd y cyfnod y taliad wedi'i wneud a'i gofnodi wedi mynd drosodd.

Dim tocyn talu ac arddangos wedi'i arddangos

32. Os, ar unrhyw adeg tra bod cerbyd wedi'i barcio mewn man parcio, na fydd tocyn yn cael ei arddangos ar y cerbyd hwnnw yn y man perthnasol ac yn unol â darpariaethau'r gorchymyn hwn, bernir nad yw'r tâl wedi'i dalu oni bai bod dull talu cymeradwy arall wedi'i ddefnyddio sy'n dal yn ddilys.

33. Os ar adeg y mae'r cerbyd wedi'i barcio yn ystod oriau y codir tâl mewn lle parcio, ac mae'r peiriant docynnau agosaf yn y lle parcio hwnnw ddim yn gweithio, yna dylid nôl tocyn o beiriant tocyn arall o fewn yr yn lle parcio (os oes un) neu fel y cyfarwyddir yn y lle parcio.

34. Os na ellir cael tocyn talu ac arddangos dilys o beiriant docynnau o fewn lle parcio, gall gerbydau barcio mewn lle parcio ond ni chânt barcio am fwy na'r cyfnod uchafswm o barcio yn y lle parcio fel yr hysbysebir yn y lle parcio.

Trwydded Barcio

35. Mae trwyddedi barcio ar gael gan Gyfoeth Naturiol Cymru, Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol neu'r Cyngor am ffi briodol, ar gyfer cerbyd o ddosbarth penodol ac ar gyfer lle parcio benodol yn amodol ar amodau a bennir gan Cyfoeth Naturiol Cymru, Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol neu'r Cyngor.

36. Mae trwydded barcio ond yn ddilys yn y lle (lleoedd) parcio o ran lle cafodd ei roi fel y dengys yn Atodlenni'r Gorchymyn hwn, ar gyfer y cerbyd y cafodd ei roi a hyd at y dyddiad terfyn a ddengys ar y drwydded barcio.

37. Bydd y gyrrwr yn cadw at delerau wedi'u hamodi gan Gyfoeth Naturiol Cymru, Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol neu'r Cyngor ar gyfer defnyddio trwydded barcio.

Arddangos trwydded barcio

38. Ac eithrio Erthygl 47, bydd trwydded barcio yn cael ei harddangos yn y safle perthnasol mewn cerbyd o ran ei roi yn ystod cyfnod y mae'r cerbyd yn parcio yn y lle parcio.

Cyfyngiad ar symud

39. Pan fydd tocyn talu ac arddangos neu drwydded barcio wedi'i arddangos ar gerbyd yn y safle perthnasol, ni chaiff unrhyw berson symud y tocyn talu ac arddangos neu'r drwydded barcio o'r cerbyd tan fydd y cerbyd wedi symud o'r lle parcio.

RHAN 4
EITHRIADAU

Eithriad rhag ffi ddyddiol

40. Ni fydd ffi ddyddiol yn daladwy os;
    (i) yw cerbyd wedi parcio yn arddangos mewn safle perthnasol a bod trwydded barcio yn ddilys ar gyfer y lle parcio hynny.

Absenoldeb peiriant tocynnau

41. Os ar adeg y mae'r cerbyd wedi parcio yn y lle parcio yn ystod oriau codi ffi ac nid oes peiriant docynnau yn y lle parcio, neu fod pob un peiriant tocynnau yn y lle parcio gyda hysbysiadau arnynt gan unigolyn awdurdodedig y Cyngor yn dynodi nad ydynt yn gweithio, bydd gyrrwr y cerbyd hwnnw yn cael ei eithrio rhag prynu tocyn talu ac arddangos.

Taliad trwy ddull talu cymeradwy amgen

42. Lle bo trefniadau i dalu'r tâl dyddiol wedi'u gwneud drwy ddull talu cymeradwy arall ac na chynhyrchir tocyn talu ac arddangos drwy ddilyn y broses, bydd gyrrwr cerbyd yn cael ei eithrio rhag y gofyniad i arddangos tocyn o'r fath.

RHAN 5
ADLEOLI, SYMUD A GWAREDU CERBYDAU

Argyfyngau

43. Gall person a awdurdodwyd neu swyddog heddlu mewn iwnifform, gan ddefnyddio unrhyw fesurau sy'n briodol, symud neu achosi i unrhyw gerbyd sydd wedi ei barcio yn y lle parcio os oes argyfwng i unrhyw le y mae o/hi yn ei ystyried yn briodol.

Torri rheolau mewn lle parcio a ataliwyd neu wedi gau

44. Gall person a awdurdodir gan y Cyngor, gan ddefnyddio'r fath fesurau sy'n briodol, symud neu achosi i gael ei symud i unrhyw le y mae o/hi'n ei ystyried yn briodol, unrhyw gerbyd sydd wedi ei barcio yn y lle parcio sydd wedi ei gau neu ei atal yn llwyr neu'n rhannol gan y Cyngor a bydd ceidwad cofrestredig y cerbyd yn atebol am gostau symud a chadw'r cerbyd yn ddiogel.

Cadw'n ddiogel

45. Bydd unrhyw berson sy'n symud cerbyd o'r lle parcio dan ddarpariaethau'r Gorchymyn hwn yn gwneud y fath drefniadau ag sydd angen yn rhesymol i ddarparu ar gyfer cadw'r cerbyd yn ddiogel.

Gwaredu cerbydau a adawyd mewn lle parcio

46. Efallai bydd y Cyngor yn gwerthu neu fel arall gwaredu, yn unol gyda'r ddeddfwriaeth gyfredol, mae cerbyd sydd wedi, neu wedi gallu ar unrhyw adeg, yn cael ei symud o'r lle parcio os yw cerbyd yn ymddangos ei fod wedi cael ei adael.

RHAN 6
TROSEDD A THÂL COSB

Trosedd

47. Ac eithrio darpariaethau yn Rhan 7, os yw cerbyd yn aros neu wedi parcio heb gydymffurfio â gofynion y Gorchymyn hwn, bydd hyn yn drosedd a bydd tâl cosb yn daladwy. Yna efallai bydd Rhybudd Talu Cosb yn cael ei roi a'i gyflwyno a/neu bydd y cerbyd yn cael ei symud o'i leoliad. Bydd holl gamau gweithredu gorfodi o ran telerau deddfwriaeth a diwygiadau dilynol

Cyfyngiad ar Ddiddymu Hysbysiadau

48. Ni ddylai unrhyw hysbysiad, gan gynnwys Rhybudd Talu Cosb, gael ei dynnu neu ymyrryd â hysbysiad tâl cosb a osodir ar gerbyd yn unol â'r Gorchymyn hwn oni bai gan neu yn unol ag awdurdod:
    (i) y Perchennog, neu unigolyn sydd yn gyfrifol am y cerbyd.
    (ii) y Cyngor ar gyfer y lle parcio lle'r oedd y cerbyd dan sylw wedi ei ganfod.

Mynegiannau fel Tystiolaeth

49. Bydd y manylion a roddir mewn unrhyw hysbysiad sydd ynghlwm â cherbyd yn unol â darpariaethau'r Gorchymyn hwn yn cael eu trin fel tystiolaeth mewn unrhyw weithrediadau yn ymwneud â methu â thalu'r tâl cosb.

RHAN 7
ATEBOLRWYDD A DARPARIAETHAU ERAILL

Atebolrwydd

50. Nid yw Cyfoeth Naturiol Cymru, Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol na'r Cyngor yn derbyn unrhyw atebolrwydd am golled neu ddifrod i gerbydau neu eiddo arall a adawir yn y lle parcio y mae'r Gorchymyn hwn yn berthnasol iddo ac eithrio achosion sy'n deillio o esgeulustod Cyfoeth Naturiol Cymru, Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol neu'r Cyngor.

Dilysrwydd

51. Os yw llys, yr Adran Gludiant, Gweinidogion Cymru, Llywodraeth Leol a Chymunedau neu'r Gwasanaethau Tribiwnlys Cosbau Traffig yn datgan bod unrhyw ran o'r Gorchymyn hwn yn annilys neu'n amhosib ei weithredu, ni fydd datganiad o'r fath yn annilysu gweddill y Gorchymyn.

Treth ac Yswiriant

52. Bydd unrhyw un sydd yn achosi neu ganiatáu unrhyw gerbyd i aros mewn lle parcio heb fod y cerbyd wedi'i drwyddedu yn unol â darpariaethau Ddeddf Gerbydau Ecseis a Chofrestru 1994 a heb bolisi yswiriant cyfredol sy'n berthnasol i'r gyrrwr sy'n defnyddio'r cerbyd yn unol â gofynion Rhan VI Deddf Traffig Ffyrdd 1972 yn atebol i gael eu herlyn.

Gyrru o fewn y lle parcio

53. Os oes arwyddion neu farciau wedi'u gosod ar wyneb y Lle Parcio at ddibenion:-

(i) dangos mynedfa neu allanfa'r Lle Parcio neu

(ii) dangos y dylai cerbyd sy'n defnyddio'r lle parcio deithio i gyfeiriad penodol yn y lle parcio,

unrhyw unigolyn sydd yn gyrru neu ganiatáu i gerbyd gael ei yrru

(i) fel ei fod yn mynd i mewn i'r lle parcio mewn unrhyw ffordd heblaw am drwy'r fynedfa neu'n gadael y lle parcio mewn unrhyw ffordd heblaw am drwy'r allanfa fel y'u dangosir neu

(ii) yng nghyfeiriad heblaw a nodwyd yn atebol i gael eu herlyn.

54. Ni chaiff unrhyw berson, ac eithrio gyda chaniatâd person a awdurdodwyd gan y Cyngor yn y rhinwedd hwnnw, yrru neu ganiatáu i gerbyd gael ei yrru yn y lle parcio at unrhyw ddiben ac eithrio'r diben o adael y cerbyd hwnnw yn y lle parcio yn unol â darpariaethau'r Gorchymyn hwn neu at y diben o ymadael â'r lle parcio fod yn atebol i gael eu herlyn.

Difrod Bwriadol

55. Bydd unrhyw berson sydd yn bwriadu twyllo drwy ymyrryd ar beiriant tocynnau neu weithredu neu geisio gweithredu drwy osod gwrthrychau ar

wahân i arian heb eu difrodi a heb eu newid o dendr cyfreithiol ac o enwad priodol, yn atebol i gael eu herlyn.

56. Ni chaiff unrhyw berson achosi difrod i unrhyw gyfarpar, gosodiadau arwydd neu olau Cyfoeth Naturiol Cymru, yr Ymddiriedaeth Genedlaethol neu'r Cyngor neu osodiadau eraill o fewn y lle parcio neu unrhyw ran o wneuthuriad o le parcio a bydd unrhyw unigolyn yn gwneud hyn yn atebol i gael eu herlyn.

Dibenion domestig

57. Ar wahân i Erthygl 22 y Gorchymyn hwn o ran adran (i) yr Erthygl hon, bydd unrhyw un sydd yn defnyddio unrhyw ran o'r lle parcio neu unrhyw gerbyd wedi'i barcio yn y lle parcio.

(i) ar gyfer cysgu neu fwyta neu wersylla neu goginio, neu

(ii) at ddibenion gwasanaethau neu olchi unrhyw gerbyd neu ran ohono, na'r hynny sy'n angenrheidiol resymol i alluogi'r cerbyd hwnnw symud allan o'r lle parcio, neu

(iii) ar gyfer chwarae neu gymryd rhan mewn unrhyw chwaraeon neu hamdden yn y lle parcio, neu

(iv) ar gyfer pwrpas dysgu dysgwyr gyrru yn atebol i gael eu herlyn.

Ymddygiad

58. Bydd unrhyw berson sydd yn fwriadol yn canu corn neu offeryn tebyg ar gerbyd ar wahân pan maent ar fin symud safle'r cerbyd neu adael y lle parcio yn atebol i gael eu herlyn.

59. Bydd unrhyw berson yn y lle parcio weiddi na gwneud sŵn uchel mewn unrhyw ffordd arall gan achosi aflonyddwch neu annifyrrwch i ddefnyddwyr y lle parcio neu eiddo trigolion yn y gymdogaeth yn atebol i gael eu herlyn.

60. Bydd unrhyw berson yn y lle parcio sy'n defnyddio unrhyw iaith, arwydd neu ymddygiad bygythiol, difrïol na sarhaus gyda'r bwriad o godi ofn ar unrhyw berson neu a fyddai'n achosi tor heddwch neu lle byddai tor heddwch yn debygol o gael ei achosi yn atebol i gael eu herlyn.

Gweithgareddau Eraill

61. Bydd unrhyw berson sydd mewn lle parcio

(i) godi neu achosi neu ganiatáu i unrhyw babell, bwth, stondin, adeilad neu adeiladwaith arall gael ei godi heb ganiatâd ysgrifenedig Cyfoeth Naturiol Cymru, Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol neu'r Cyngor, neu

(ii) yn cynnau neu achosi i gynnau unrhyw dân,

(iii) cynnal gweithgareddau nad ydynt yn berthnasol yn uniongyrchol at barcio cerbyd yn y lle parcio o ran telerau defnydd y lle parcio

yn atebol i gael eu herlyn.

Wedi'i llofnodi fel Gweithred trwy osod SÊL GYFFREDIN
Cyngor Sir Ddinbych
yng ngŵydd

Llofnodwr Awdurdodedig:…….

Dyddiedig y dydd hwn o 2024

Hon yw'r Atodlen 1 y cyfeirir ati yn

y Gorchymyn Cyngor Sir Ddinbych (Parciau Gwledig Loggerheads a Moel Famau a Llangollen) (Lleoedd Parcio Oddi ar y Stryd) 2024.

.

ATODLEN 1 - TALU LLEOEDD PARCIO

Enw Lle Parcio a Rhif y Cynllun	Safle lle y gall cerbydau aros	Dosbarthiadau o gerbyd a ganiateir y gellir eu parcio yn y Lle Parcio	Dyddiau ac oriau gweithredu rheoliadau yn y Lle Parcio	Y cyfnod hiraf y gall cerbydau aros yn y Lle Parcio
1	2	3	4	5
Maes Parcio Bwlch Pen Barras Cynllun CP041	Yn gyfan gwbl o fewn llain parcio lle mae'r llain parcio honno wedi'i farcio neu ei ddangos gan berson awdurdodedig.	Car Modur Beic modur Cerbydau Personau Anabl Cerbyd nwyddau ysgafn Cerbyd trydan Beic modur trydan	Bob dydd 1 Ebrill i 31 Hydref rhwng 8.00am a 9.00pm Bob dydd 1 Tachwedd i 31 Mawrth rhwng 8.00am a 6.00pm Bob dydd Mae'r maes parcio ar gau y tu allan i'r oriau uchod.	13 awr rhwng 8.00 am a 9:00pm 10 awr rhwng 8.00 am a 6:00pm
Maes Parcio Parc Gwledig Loggerheads Cynllun CP042	Yn gyfan gwbl o fewn llain parcio lle mae'r llain parcio honno wedi'i farcio neu ei ddangos gan berson awdurdodedig.	Car Modur Beic modur Cerbydau Personau Anabl Cerbyd nwyddau ysgafn Cerbyd trydan Beic modur trydan	Bob dydd 1 Ebrill i 31 Hydref rhwng 8.00am a 9.00pm Bob dydd 1 Tachwedd i 31 Mawrth rhwng 8.00am a 6.00pm Bob dydd Mae'r maes parcio ar gau y tu allan i'r oriau uchod.	13 awr rhwng 8.00 am a 9:00pm 10 awr rhwng 8.00 am a 6:00pm
Maes Parcio Grîn Llantysilio Llangollen CP043	Yn gyfan gwbl o fewn llain parcio lle mae'r llain parcio honno	Car Modur Beic modur Cerbydau Personau Anabl Cerbyd nwyddau	Bob dydd 1 Ebrill i 31 Hydref rhwng 8.00am a 8.00pm	12 awr rhwng 8.00 am a 8:00pm 9 awr rhwng 8.00

	wedi'i farcio neu ei ddangos gan berson awdurdodedig.	ysgafn Cerbyd trydan Beic modur trydan	Bob dydd 1 Tachwedd i 31 Mawrth rhwng 8.00am a 5.00pm	am a 5:00pm

Hon yw'r Atodlen 2 y cyfeirir ati yn
y Gorchymyn Cyngor Sir Ddinbych (Parciau Gwledig Loggerheads a Moel Famau a Llangollen) (Lleoedd Parcio Oddi ar y Stryd) 2024.

ATODLEN 2 - TABL FFIOEDD LLEOEDD PARCIO ODDI AR Y STRYD

Enw Lle Parcio a Rhif y Cynllun	Cyfnod Codi Ffi (dyddiau ac oriau pan fydd ffioedd yn cael eu rhoi)	Graddfa Brisiau
1	2	3
Maes Parcio Bwlch Pen Barras Cynllun CP041	Bob dydd 1 Ebrill i 31 Hydref. Rhwng 8:00am a 9:00pm a Bob dydd 1 Tachwedd i 31 Mawrth rhwng 8.00am a 6.00pm	Hyd at 4 awr - £2.00 Drwy'r dydd - £5.00 Ni chodir ffi i feiciau modur barcio. Cyfoeth Naturiol Cymru, ni chodir ffi ar ddeiliaid tocynnau dilys i barcio
Maes Parcio Parc Gwledig Loggerheads Cynllun CP 042	Bob dydd 1 Ebrill i 31 Hydref. Rhwng 8:00am a 9:00pm a Bob dydd 1 Tachwedd i 31 Mawrth rhwng 8.00am a 6.00pm	Hyd at 2 awr - £1.50 2 i 4 awr - £2.00 Drwy'r dydd - £5.00 Ni chodir ffi i feiciau modur barcio. Cyfoeth Naturiol Cymru, ni chodir ffi ar ddeiliaid tocynnau dilys i barcio
Maes Parcio Grîn Llantysilio Llangollen CP043	Bob dydd 1 Ebrill i 31 Hydref. Rhwng 8:00am a 8:00pm a Bob dydd 1 Tachwedd i 31 Mawrth rhwng 8.00am a 5.00pm	Hyd at 2 awr - £2.00 Drwy'r dydd - £5.00 Ni chodir ffi i feiciau modur barcio. Aelodau'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, ni chodir ffi i ddeiliad tocyn dilys i barcio.

Hon yw'r Atodlen 3 y cyfeirir ati yn

y Gorchymyn Cyngor Sir Ddinbych (Parciau Gwledig Loggerheads a Moel Famau a Llangollen) (Lleoedd Parcio Oddi ar y Stryd) 2024.

ATODLEN 3 - LLEOEDD PARCIO NA THELIR AMDANYNT

Enw Lle Parcio a Rhif y Cynllun	Safle lle y gall cerbydau aros	Dosbarthiadau o gerbyd a ganiateir y gellir eu parcio yn y Lle Parcio	Dyddiau ac oriau gweithredu rheoliadau yn y Lle Parcio	Y cyfnod hiraf y gall cerbydau aros yn y Lle Parcio
1	2	3	4	5
Maes Parcio Wenffrwd Llangollen CP044	Yn gyfan gwbl o fewn llain parcio lle mae'r llain parcio honno wedi'i farcio neu ei ddangos gan berson awdurdodedig.	Car Modur Beic modur Cerbydau Personau Anabl Cerbyd nwyddau ysgafn Cerbyd trydan Beic modur trydan Deiliaid Tocynnau Tymor	Bob dydd 1 Ebrill i 31 Hydref rhwng 8.00am a 8.00pm Bob dydd 1 Tachwedd i 31 Mawrth rhwng 8.00am a 6.00pm Bob dydd Mae'r maes parcio ar gau y tu allan i'r oriau uchod.	12 awr rhwng 8.00 am a 8:00pm 10 awr rhwng 8.00 am a 6:00pm

Hon yw'r Atodlen 4 y cyfeirir ati yn
y Gorchymyn Cyngor Sir Ddinbych (Parciau Gwledig Loggerheads a Moel Famau a Llangollen) (Lleoedd Parcio Oddi ar y Stryd) 2024.

ATODLEN 4 - CYNLLUNIAU LLEOEDD PARCIO

Gweler y cynlluniau ynghlwm.